**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2015 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 1pm.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cyng. M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. R J Dutton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng. P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Datblygu); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Cyng. R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11 MAI 2015

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 MONITRO PERFFORMIAD 2014-15

6.1 Cyflwynodd y DBST adroddiad monitro perfformiad 2014-15, a thynnodd sylw'r aelodau at y canlynol:

- Roedd mwy o bobl wedi gallu dianc yn ddianaf heb gymorth. Ystyrid bod modd priodoli hyn yn rhannol i'r rhybudd cynnar y mae larwm mwg yn ei roi a'r ffaith fod mwy o bobl wedi ymarfer cynllun dianc wedi ei deilwra ar gyfer eu hanghenion nhw.

- Roedd yr adroddiad yn datgan y bu tair marwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau ond ers hynny roedd y Crwner wedi cadarnhau nad tân oedd yn gyfrifol am y farwolaeth yn y digwyddiad ym mis Tachwedd 2014. Felly, y nifer diwygiedig erbyn hyn yw dwy farwolaeth.

- Da oedd nodi bod nifer yr anheddau lle bu tân ac a oedd heb larwm tân yr isaf erioed, ac ystyrid bod hyn i'w briodoli i'r gwaith atal tanau gan GTAGC.

- O blith y 27,532 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, roedd 36.7% o'r rheini wedi cael eu cwblhau yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni; roedd hyn yn mynd y tu hwnt i darged y Gwasanaeth ei hun sef 30%.

- Bu gostyngiad yng nghyfanswm y digwyddiadau yr aethpwyd atynt o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ond bu cynnydd yn nifer y tanau ar safleoedd annomestig – dyma'r cynnydd cyntaf yn y categori hwn ers 2009/10, ond nodwyd bod mwy o safleoedd annomestig yng Ngogledd Cymru erbyn hyn.

- Bu cynnydd yng nghyfanswm y galwadau diangen a gafwyd. Ond disgwylid y bydd y ffaith fod y Gwasanaeth wedi newid ei bolisi ar fynd at larymau tân awtomatig ar safleoedd annomestig yn gwneud gwahaniaeth i'r ffigwr hwn yn 2015-16 a'r tu hwnt.

6.2 Roedd yr aelodau'n fodlon â pherfformiad y Gwasanaeth, ac roeddent yn gofyn am gyfleu eu gwerthfawrogiad i holl staff GTAGC.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi adroddiad monitro perfformiad 2014-15.**

7 DIWEDDARIAD YNGHYLCH GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA

7.1 Esboniodd y PST fod gweithgor y cynllun gwella wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ers Mawrth 2015 i ystyried amcanion gwella ar gyfer 2016-17. Roedd yr aelodau wedi cael sawl cyflwyniad ar yr adolygiad o risgiau ac roeddent wedi dechrau ystyried y goblygiadau o ran y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod.

7.2 Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a ddaeth i law, mae'r gweithgor nawr yn argymell yr amcanion gwella a ganlyn i'r Panel Gweithredol:

Amcan Gwella 1 – Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.

Amcan Gwella 2 – Gan gydnabod y gostyngiad a ragwelir yng nghyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol tair blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog.

Amcan Gwella 3 – Ad-drefnu ein hadnoddau i gyfateb i risg. Byddwn yn gweithredu model newydd o sicrhau adnoddau, a fydd yn darparu o leiaf 20 gorsaf dân ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is ac o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.

Amcan Gwella 4 – Edrych ar gyfleoedd i amrywio rôl diffoddwyr tân, a chynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

7.3 Daw'r cyfnod ymgynghori i ben yn Rhagfyr 2015. Dywedodd y Trysorydd y bydd angen i'r Awdurdod o bosibl gynnal cyfarfod arbennig yn niwedd Rhagfyr neu ddechrau Ionawr i drafod cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2016/17 yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori a'r cyhoeddiad ynghylch setliad y gyllideb sydd hefyd i fod i gael ei wneud yn Rhagfyr 2015.

7.4 Gofynnodd yr aelodau i'r amcanion gwella drafft gael eu rhannu â holl aelodau'r Awdurdod cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, a bod y swyddogion yn cyfarfod â rhanddeiliaid fel rhan o'r ymgynghoriad.

7.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) argymell yr amcanion gwella drafft, fel uchod, i'r Awdurdod;**

**(ii) nodi y bydd y ddogfen ymgynghori ddrafft yn cael ei chyhoeddi am 12 wythnos yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod ar 21 Medi 2015.**

8 YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD I GEFNOGI'R CYNLLUN CYFUNOL I LEIHAU RISG A GWELLA 2016-17

8.1 Cyflwynodd y PSTC Simmons yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth ar y gwahanol ddulliau o ymgynghori a'r cyhoedd y gellid eu dewis er mwyn goleuo'r gwaith o greu cynllun gwella 2016-17.

8.2 Nododd yr Aelodau yr ymateb gwell i ddogfen ymgynghori 2015-16 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ac roeddent yn ystyried bod cael 291 o ymatebion yn llwyddiant. Roedd yr Aelodau'n croesawu'r bwriad i adeiladu ar strategaeth ymgynghori'r llynedd, ac yn nodi'r defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol a'r tueddiad newydd i ddefnyddio clipiau fideo i gyfleu negeseuon. Fodd bynnag, gofynnodd yr Aelodau i swyddogion gofio am y rhai sydd heb fodd o ddefnyddio cyfrifiaduron, ac roeddent yn falch o nodi bod copïau caled yn cael eu dosbarthu i bob llyfrgell yng Ngogledd Cymru.

8.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi llwyddiant y strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer 2015-16;**

**(ii) cefnogi'r egwyddor fod yn rhaid i'r dulliau i'w defnyddio ar gyfer strategaeth 2016-17 geisio cynyddu neu wella rhagor ar yr ymatebion ac adlewyrchu natur yr amcanion unwaith y bydd yr Awdurdod wedi cytuno arnynt.**

9 UWCH GYFARFOD YNGHYLCH TANAU CEFN GWLAD A GLASWELLT

9.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am yr uwch gyfarfod ynghylch tanau cefn gwlad a glaswellt a gafodd ei alw gan Brif Weinidog Cymru yn dilyn y nifer fawr o danau o'r fath yr aeth y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru atynt yn Ebrill 2015.

9.2 Er bod nifer y tanau cefn gwlad a glaswellt yng Ngogledd Cymru yn ystod gwanwyn 2015 yn eithaf tebyg i'r blynyddoedd blaenorol, bu cynnydd sylweddol yn y cyhoeddusrwydd i danau o'r fath yn Ne Cymru. Felly, roedd Llywodraeth Cymru wedi galw cyfarfod i ystyried cynllun i ymdrin â'r mater.

9.3 Yn ogystal â chydweithredu â Llywodraeth Cymru ar y cynllun gweithredu a gyhoeddwyd, nodwyd y bydd y Gwasanaeth yn parhau i weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol i dargedu pobl ifanc fel rhan o'i waith ataliol yn hyrwyddo peryglon cynnau tanau bwriadol. Bydd y Gwasanaeth hefyd yn parhau i hyrwyddo'r rhif ffôn i bobl allu rhoi gwybod i'r Ystafell Reoli os byddant yn mynd ati i losgi dan reolaeth.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 RHAGLEN CYSYLLTIADAU SYMUDOL Y GWASANAETHAU BRYS

10.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r aelodau am hynt Rhaglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (Rhaglen yr ESMCP) ac i atgoffa'r aelodau am risgiau posibl y prosiect cenedlaethol hwn sy'n cynnwys yr holl wasanaethau brys yn y Deyrnas Unedig.

10.2 Mynegodd aelodau bryder am y materion a godir yn yr adroddiad. Nodwyd bod swyddogion yn gweithio gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r achos busnes dros barhau â'r grant hyd nes y bydd Cymru wedi symud i Raglen yr ESMCP erbyn 2019.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect cenedlaethol hwn.**

11 ADRODDIAD MONITRO'R IAITH GYMRAEG

11.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2014-15 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.

11.2 Roedd y Cyng. L W Davies yn croesawu'r adroddiad ac ymrwymiad parhaus y Gwasanaeth i'r Gymraeg. Hefyd dywedodd y Cyng. Davies mai da oedd fod cynifer o'r staff yn siarad Cymraeg. Holodd yr Aelodau am nifer y Safonau y mae Comisiynydd y Gymraeg yn eu gosod ar yr awdurdodau cyhoeddus a'r gwaith o'u herwydd o ran gasglu'r data a'r wybodaeth, a ph'un a oedd hyn yn angenrheidiol ac yn briodol. Cadarnhaodd y swyddogion fod dadansoddiad o'r bylchau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i ganfod unrhyw fylchau lle nad yw'r Gwasanaeth yn bodloni'r Safonau angenrheidiol.

11.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod; a**

**(ii) cymeradwyo adroddiad monitro 2014-15 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.**

12 PROTOCOL IAITH GYMRAEG AR Y CYD Â HEDDLU GOGLEDD CYMRU

12.1 Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i brotocol Iaith Gymraeg ar y cyd rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.

12.2 Esboniodd y PSTC fod y protocol yn estyniad o'r cydweithredu presennol rhwng y ddau sefydliad ac yn adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus at y Gymraeg, gan gynnwys yr agweddau dysgu, ymwybyddiaeth a datblygu.

12.3 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnwys a chymeradwyo'r protocol Iaith Gymraeg ar y cyd rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.**

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

13 GWEITHREDU DIWYDIANNOL

13.1 Dywedodd y PST na fu unrhyw gyfnodau pellach o weithredu diwydiannol nac unrhyw gynnydd na newid ac felly cynigiodd dynnu'r eitem oddi ar yr agendâu yn y dyfodol. Gellid ailgyflwyno'r eitem petai yna unrhyw ddatblygiadau pellach.

13.2 **PENDERFYNWYD tynnu'r eitem oddi ar agendâu'r Awdurdod yn y dyfodol.**